

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams, AS  
Y Gweinidog Addysg  
19 Ebrill 2021

## Rhan 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ('y Rheoliadau') yn diwygio:

- (a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (OS 2007/2310) ('y Rheoliadau Ffioedd a Dyfarniadau');
- (b) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsgau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 (OS 2015/1484) ('y Rheoliadau CPC');
- (c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (OS 2017/47) ('Rheoliadau 2017');
- (d) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 (OS 2017/523) ('Rheoliadau Graddau Meistr 2017');
- (e) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (OS 2018/191) ('Rheoliadau 2018');
- (f) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 (OS 2018/656) ('y Rheoliadau Graddau Doethurol'); ac
- (g) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 (OS 2019/895) ('Rheoliadau Graddau Meistr 2019').

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r uchod (gyda'i gilydd "y rheoliadau cyllid myfyrwyr") i wneud newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE a'r AEE ac i gyflwyno categori cymhwysra newydd i'r rhai a chanddynt ganiatâd 'Calais' i aros yn y DU a'r rhai a chanddynt ganiatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros ynddi (fel y bo'n briodol) o ganlyniad i drais domestig neu drwy fod yn bartner sydd wedi cael profedigaeth.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gofynnir i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad nodi na chydymffurfir yn yr achos hwn â'r confensiwn dod i rym 21 diwrnod. Mae'r diwygiadau sy'n angenrheidiol i reoliadau o ganlyniad i ymadael â'r UE yn gymhleth ac yn hir. Pe cydymffurfir â'r confensiwn hwn, ni fyddai'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n gweithredu drwy ei wasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn gallu derbyn ceisiadau am gyllid gan fyfyrwyr tan ddiwedd mis Mai a byddai risg sylweddol a gwirioneddol na fyddai myfyrwyr yn cael eu taliadau cyn dechrau blwyddyn academaidd 2021/22. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Llywydd.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 ("Deddf 1983"), adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") ac adrannau 22(2)(a) a (d) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998").

Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf 1983 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi codi ffioedd uwch ar fyfyrwyr penodedig ac awdurdodi rheolau cymhwysra mewn perthynas â dyfarniadau penodedig mewn cysylltiad ag addysg, hyfforddiant neu ymchwil.

Mae adran 5 o Ddeddf 2015 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi (ymhlith eraill) y personau cymhwysol a fydd yn elwa ar y terfynau ffioedd a nodir yng nghynllun ffioedd a mynediad sefydliad. Mae hyn yn berthnasol i'r sefydliadau hynny yng Nghymru a reoleiddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan Ddeddf 2015.

Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i dalu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458).

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

Darparodd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Darparodd adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd i swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 fod yn arferadwy yn gydredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Bob blwyddyn, caiff nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 eu dirprwyo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrywyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU. Mae'r rheoliadau cyllid myfyrwyr yn cynnwys meini prawf cymhwysra y gall grwpiau penodedig, yn unol â hwy, fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a chap ar ffioedd dysgu.

Mae Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau cyn, ac ar neu ar ôl, 1 Awst 2018 yn y drefn honno. Cyrsiau israddedig amser llawn a rhan-amser yw'r rhain yn bennaf. Mae Rheoliadau 2018 hefyd yn darparu cymorth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018 ac sydd wedyn yn cael eu trosi o gyrsiau amser llawn i rai rhan-amser neu o gyrsiau rhan-amser i rai amser llawn ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae Rheoliadau Graddau Meistr 2019 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Meistr ôl-raddedig dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019, a Rheoliadau Graddau Meistr 2017 ar gyfer cyrsiau Meistr ôl-raddedig sy'n dechrau cyn y dyddiad hwnnw. Mae'r Rheoliadau Graddau Doethurol yn gwneud darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n astudio cyrsiau doethurol dynodedig a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae'r Rheoliadau CPC yn gwneud darpariaeth ar gyfer (ymhlith pethau eraill) y personau hynny a fydd yn gymwys i gael y cap ffioedd dysgu (£9,000 yng Nghymru ar hyn o bryd). Mae'r Rheoliadau Ffioedd a Dyfarniadau yn ei gwneud yn gyfreithlon i wahaniaethu rhwng myfyrwyr wrth godi ffioedd, gan sefydlu 'statws ffioedd cartref'.

Gellir codi ffi uwch ar fyfyrwyr nad ydynt yn dod o fewn categorïau cymhwysra penodedig nag ar fyfyrwyr sy'n dod oddi mewn iddynt. Bydd myfyrwyr sy'n gymwys i gael statws ffioedd cartref hefyd yn elwa ar y cap ffioedd dysgu.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r rheoliadau cyllid myfyrwyr fel yr amlinellir isod.

#### *Newidiadau o ganlyniad i ymadael â'r UE*

Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r DU fel aelod-wladwriaeth o'r UE, roedd rheoliadau cyllid myfyrwyr Llywodraeth Cymru yn gwneud myfyrwyr o'r UE, gwladwriaethau eraill yr AEE a'r Swistir yn gymwys i gael cymorth a statws ffioedd cartref ar sail debyg i'r myfyrwyr a oedd wedi ymgartrefu yn y DU. Roedd gwladolion yr UE yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a benthyciadau ffioedd dysgu os oeddent wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y DU, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir am o leiaf dair blynedd cyn dechrau eu cwrs. Roeddent hefyd yn gymwys i gael grantiau a benthyciadau cynhaliaeth os oeddent wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd am o leiaf dair blynedd cyn dechrau eu cwrs. Roedd gweithwyr trawsffiniol a mudwyr o'r Swistir a'r AEE ac aelodau o'u teuluoedd hefyd yn gymwys i gael y cymorth ar ôl tair blynedd o breswyllo yn y DU, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir.

O ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE, ni fydd gan Lywodraeth Cymru yr un rhwymedigaeth mwyach i ddarparu statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr i'r myfyrwyr uchod. Ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau o flwyddyn academaidd 2021/22 ymlaen, bydd mynediad at statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr yn cael ei ddileu ar gyfer gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir nad ydynt yn dod o dan ddarpariaethau hawliau dinasyddion y Cytundebau Ymadael (y Cytundeb Ymadael â'r UE, Cytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a'r Cytundeb ar Hawliau Dinasyddion Swisaidd). Oni bai bod y gwladolion hyn yn dod o dan y darpariaethau hawliau dinasyddion hyn neu eu bod yn gymwys o dan gategori arall o'r rheoliadau, byddant yn awr yn cael eu trin yn yr un modd â myfyrwyr rhyngwladol eraill, a bydd darparwyr yn gallu codi ffioedd uwch arnynt. Nid yw'r newidiadau hyn o ran cymhwysra yn berthnasol i ddinasyddion Gwyddelig sy'n byw yn y DU neu yn Iwerddon y bydd eu hawl i astudio ac i gael mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau yn cael ei chadw ar sail gyfatebol ar gyfer dinasyddion Prydeinig a Gwyddelig o dan drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

Dyma'r grwpiau na fyddant bellach yn gymwys i gael statws ffioedd cartref neu gymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau o flwyddyn academaidd 2021/22 ymlaen, oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn narpariaethau hawliau dinasyddion y Cytundebau Ymadael (neu'n gymwys o dan gategori arall):

- gwladolion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd sy'n byw yn y DU, Gibraltar, yr AEE, y Swistir;
- gwladolion eraill yr AEE a'r Swistir, ac aelodau o'u teuluoedd, a ddaw i'r DU at ddibenion gwaith;
- plant gwladolion y Swistir lle mae'r olaf yn byw, ond heb fod yn gweithio yn y DU;
- plant gweithwyr Twrcaidd lle mae'r naill neu'r llall neu'r ddau yn cyrraedd y DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r UE.

Bydd unrhyw fyfyrwr a ddaw o fewn y grwpiau uchod ac sydd ar gwrs cyn 1 Awst 2021 ac (a) a oedd yn gymwys pan wnaed y cais neu (b) a fyddai wedi bod yn gymwys pe byddai wedi gwneud cais, yn cael mynediad at gymorth i fyfyrwyr drwy gydol ei gwrs (yn unol â'r categori cymhwysra y mae'n perthyn iddo), boed yn fyfyrwr israddedig neu ôl-raddedig. Mae darpariaethau tebyg yn berthnasol mewn perthynas â chymhwysra myfyrwr i gael statws ffioedd cartref.

Bydd y gwladolion hynny o'r UE, yr AEE a'r Swistir sy'n dod o fewn cwmpas personol darpariaethau hawliau dinasyddion y Cytundebau Ymadael ac sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi wedi'i roi o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo (fel y'u diffinnir yn adran 17 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), yn dod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr o flwyddyn academiaidd 2021/22 ymlaen. Mae'r Cytundebau Ymadael yn cadw hawliau presennol i beidio â chael eu gwahaniaethu ac i gael eu trin yn yr un modd â phersonau sydd wedi arfer eu hawl i breswyllo yn y DU cyn diwedd y cyfnod pontio ac eraill o fewn cwmpas darpariaethau'r hawliau dinasyddion. Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i sicrhau y bydd personau â'r hawliau hyn yn parhau i fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr ar yr un sail yn fras â myfyrwyr domestig o flwyddyn academiaidd 2021/22 ymlaen, sef:

- Gwladolion yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd a chanddynt statws preswyllydd sefydlog neu gyn-sefydlog o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE;
- Gweithwyr trawsffiniol yr AEE a'r Swistir (o fewn ystyr rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Ymadael â'r UE) 2020 (OS 2020/1213)) sydd, er nad ydynt yn byw yn y DU, wedi arfer hawl i weithio yn y DU cyn 11:00pm ar 31 Rhagfyr 2020, ac sy'n parhau i weithio yn y DU ar ôl hynny;
- Aelodau o deuluoedd gweithwyr trawsffiniol a chanddynt statws preswyllydd sefydlog neu gyn-sefydlog o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE;
- Dinasyddion Gwyddelig sydd o fewn cwmpas Cytundeb Ymadael yr UE, nad oes angen iddynt wneud cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr

UE oherwydd nad oes angen caniatâd arnynt i ddod i mewn i'r DU nac i aros ynddi o dan drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin;

- gwladolion yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd sydd â hawl i breswyllo yn Gibraltar; a
- mae gwladolion yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd sy'n dod o dan y Cytundebau Ymadael ond nad ydynt eto wedi cael statws preswlydd sefydlog na chyn-sefydlog yn gymwys os ydynt yn dal i fod o fewn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau (30 Mehefin 2021), neu os ydynt wedi gwneud cais o dan yr y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE cyn y dyddiad cau hwnnw a'u bod wrthi'n gwneud cais neu apêl. Ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, neu os gwrthodir cais yn y pen draw, ni fyddant mwyach yn dod o fewn y Cytundebau Ymadael a byddant yn colli eu cymhwysra.

Bydd dinasyddion Gwyddelig ac eraill sydd wedi ymgartrefu yn y DU, yn unol â threfniant yr Ardal Deithio Gyffredin, yn parhau i gael mynediad at statws ffioedd cartref a chymorth ffioedd dysgu ar sail preswylfa dair blynedd yn y DU, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon. Bydd dinasyddion Gwyddelig hefyd yn parhau i gael mynediad at gymorth cynhaliath ar sail tair blynedd o breswylfa yn y DU a'r Ynysoedd, yn yr un modd ag eraill a chanddynt statws preswlydd sefydlog yn y DU. O dan drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin, mae gan ddinasyddion Prydeinig a Gwyddelig yr hawl i gael mynediad at bob lefel o addysg yn y naill wladwriaeth neu'r llall ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rhai sydd ar gael i ddinasyddion y wladwriaeth honno.

Nid yw aelodau o deuluoedd pobl Gogledd Iwerddon yn dod o dan ddarpariaethau hawliau dinasyddion Cytundeb Ymadael yr UE, ond gallant wneud cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE am statws preswlydd sefydlog neu gyn-sefydlog. Bydd gan y rhai sy'n cael statws o'r fath fynediad at statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr ar yr un sail ag aelodau o deuluoedd gwladolion yr UE sy'n dod o dan y Cytundeb Ymadael. Mae'r diwygiad hwn yn adlewyrchu newid i reolau mewnfudo sy'n caniatáu i aelodau o deuluoedd pobl Gogledd Iwerddon wneud cais am statws mewnfudo ar yr un telerau yn fras ag aelodau o deuluoedd dinasyddion Gwyddelig.

Bydd gwladolion yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd sy'n gymwys drwy gael statws preswlydd cyn-sefydlog o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ond sydd wedyn yn colli'r statws hwnnw yn colli eu cymhwysra i gael cymorth i fyfyrwyr a statws ffioedd cartref o ddechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf ymlaen. Mae'r un peth yn wir am aelodau o deuluoedd pobl Gogledd Iwerddon sy'n gymwys ar sail statws preswlydd cyn-sefydlog.

Cyn ymadael â'r UE, gallai gwladolion y DU ddibynnu ar eu cenedligrwydd UE i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a statws ffioedd cartref. Gan fod hynny'n dod i ben yn awr, mae'r rheoliadau cyllid myfyrwyr yn cael eu diwygio i sicrhau bod gwladolion y DU sydd wedi bod yn preswyllo y tu allan i'r DU yn parhau i fod yn gymwys, gan ddarparu cysondeb i'r grwpiau hyn cyn ac ar ôl ymadael â'r UE. Mae hyn yn cynnwys:

- bydd aelodau o deuluoedd gwladolion y DU, a oedd yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth ffioedd dysgu drwy gael eu trin fel aelodau o deuluoedd gwladolion yr UE, yn parhau i fod yn gymwys os ydynt yn bodloni'r meini prawf preswyllo. Bydd yr ardal breswyl berthnasol yn newid o'r DU, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir (ac, ar gyfer statws ffioedd cartref, y tiriogaethau tramor) i'r DU a'r Ynysoedd;
- bydd gwladolion y DU ac aelodau o'u teuluoedd sy'n byw yn yr AEE (ac eithrio'r DU a Gibraltar) neu'r Swistir ar 31 Rhagfyr 2020, neu sydd wedi dychwelyd i fyw yn y DU ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018 yn dilyn cyfnod o breswyllo'n arferol yn yr AEE neu'r Swistir, yn parhau i fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, benthyciadau ffioedd dysgu a grantiau a benthyciadau cynhaliaeth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Ionawr 2028. Bydd hyn yn sicrhau cyfnod pontio sylweddol i'r gwladolion hynny o'r DU a oedd wedi symud i'r AEE neu'r Swistir cyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r UE;
- bydd gwladolion y DU ac aelodau o'u teuluoedd sy'n byw yn Gibraltar yn parhau i fod yn gymwys am statws ffioedd cartref, ac am gymorth ffioedd dysgu. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i wladolion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd a chanddynt hawl i breswyllo yn Gibraltar yn deillio o Gytundeb Ymadael yr UE. Mae cymorth i fyfyrwyr ar gael ar gyfer y categori hwn ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Ionawr 2028. Nid oes terfyn amser o'r fath ar gyfer cymhwysra i gael ffioedd cartref;
- bydd gwladolion y DU ac aelodau o'u teuluoedd sy'n byw yn nhiriogaethau tramor Prydain (ac eithrio Gibraltar) yn parhau i fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref pan fyddant yn astudio yng Nghymru. Bydd yr ardal breswyl yn newid o'r DU, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a'r tiriogaethau tramor i'r DU, yr Ynysoedd a thiriogaethau tramor Prydain;
- i gyd-fynd â sefyllfa gwladolion y DU sy'n byw yn yr AEE a'r Swistir, bydd gwladolion y DU ac aelodau o'u teuluoedd sy'n preswyllo fel arfer yn nhiriogaethau tramor yr UE sy'n bodloni'r meini prawf preswyllo yn parhau i fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau yng Nghymru cyn 1 Ionawr 2028.

Dylid nodi bod Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (OS 2020/1302) wedi eu gosod ar 18 Tachwedd 2020 ac maent yn darparu dilyniant o ddiwedd y cyfnod pontio hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2020/21 ar 31 Gorffennaf 2021.



## *Caniatâd Calais*

Mae caniatâd Calais i aros yn y DU ar gael i'r rhai a ddygwyd i'r DU fel rhan o'r gwaith o glirio gweryll Calais rhwng mis Hydref 2016 a mis Gorffennaf 2017, a oedd o dan 18 oed ar y pryd, ac a oedd â chysylltiadau teuluol cydnabyddedig yn y DU. Rhoddir caniatâd i unigolion i aros yn y DU o dan baragraff 352J, 352K, 352L neu 352T o'r Rheolau Mewnfudo.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r rhai sydd â chaniatâd Calais fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr. Mae hwn yn estyniad rhesymegol o bolisi rhagweithiol gan Lywodraeth y DU i adsefydlu plant sy'n agored i niwed yn y DU. Yn unol â'r newidiadau diweddar a wnaed i'r rheoliadau drwy Reoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021, ni fydd yn ofynnol i unigolion sydd â chaniatâd Calais fodloni'r gofyniad tair blynedd o breswylfa arferol, gan sicrhau y bydd y rhai sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros ynddi ar sail diogelwch yn dod yn gymwys i gael cymorth ar unwaith.

## *Caniatâd Amhenodol i Aros yn sgil Trais Domestig a Phartneriaid sydd wedi cael Profedigaeth*

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i bersonau sydd â chaniatâd amhenodol i aros yn sgil trais domestig aros a phartneriaid penodedig sydd wedi cael profedigaeth fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr. Mae'r diwygiadau'n darparu nad oes rhaid i'r personau hynny ddangos tair blynedd o breswylfa arferol yn y DU a'r Ynysoedd cyn bod yn gymwys. Mae hyn yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd y rhai yn y sefyllfa hon yn gallu dangos tystiolaeth o hyd y cyfnod preswyllo oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.

## *Diwygiadau eraill*

Mae'r Rheoliadau yn gwneud nifer bach o ddiwygiadau eraill. Y diwygiad mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw dirymu Rhan 11 o Reoliadau 2017. Mae rheoliad 60 yn darparu ar gyfer dirymu ac mae nifer o ddiwygiadau canlyniadol eraill i Reoliadau 2017 i hepgor neu gywiro croesgyfeiriadau. Mae Rhan 11 o Reoliadau 2017 yn ymwneud â myfyrwyr sy'n dysgu o bell a ddechreuodd eu cwrs cyn 1 Medi 2012. Ni fydd myfyrwyr o'r fath ar gyrsiau ym mlwyddyn academaidd 2021/22, felly mae Rhan 11 wedi'i disbyddu.

## **5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar gyfer y Rheoliadau. Mae'r asesiad a ganlyn yn canolbwyntio ar y newidiadau sy'n deillio o'r ymadawiad â'r UE.

Disgwylir mai nifer bach iawn o fyfyrwyr fydd yn cael eu heffeithio gan newidiadau i gymhwysedd ar gyfer (a) y rhai a chanddynt ganiatâd Calais a (b) y rhai a chanddynt ganiatâd fel dioddefwyr trais domestig a'r rhai a chanddynt ganiatâd fel partneriaid sydd wedi cael profedigaeth, cyfanswm o lai na chant ohonynt i gyd. Nid yw'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi data, ond deallir mai dim ond ychydig filoedd o bobl sy'n cael caniatâd amhenodol i aros yn sgil trais domestig. Bydd cyfanswm o gant a phymtheg o bobl yn cael caniatâd Calais. Bydd y niferoedd sy'n ymgartrefu yng Nghymru yn gyfatebol lai, a bydd y nifer sy'n dewis gwneud cais am gymorth yn llai fyth. Nid oes modd amcangyfrif gydag unrhyw sicrwydd rhesymol y costau sy'n gysylltiedig â'r mân newidiadau hyn.

### Y cefndir

Ar ôl 1 Awst 2021, ni fydd gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir yn gallu arfer hawliau rhyddid i symud i ddod i'r DU i weithio ac i astudio. O'r herwydd, bydd llai o'r gwladolion hynny yn astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, gan leihau'r costau a'r manteision y mae'r grŵp hwn yn eu cyfrannu at economi Cymru.

Cyflwynir y dadansoddiad hwn fel cymhariaeth enghreifftiol o rai effeithiau economaidd cyn ac ar ôl i newidiadau rheoleiddiol gael eu cymhwyso. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion cyllidebu. Mae rhagor o ansicrwydd ar hyn o bryd wrth ragweld niferoedd myfyrwyr a chyllido, a hynny oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys yr ymadawiad â'r UE a'r pandemig Covid19. Fodd bynnag, at ddibenion cymharu'r opsiynau, defnyddiwyd rhagolygon syml fel y dylid priodoli unrhyw wahaniaethau yn y dadansoddiad i effaith y newidiadau rheoleiddiol.

Caiff rhagolygon mewn perthynas â niferoedd myfyrwyr a chyllidebau cyllid cysylltiedig eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i gynnal cywirdeb. O ganlyniad, ni fyddant yn cyfateb i ragolygon a amlinellir yn yr asesiad hwn cyn bo hir.

### Opsiynau

#### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

Peidio â gwneud unrhyw newid i reoliadau. Byddai gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth a statws ffioedd cartref er bod rhwymedigaethau'r cytuniadau wedi dod i ben. Byddai hyn yn eu rhoi mewn sefyllfa freintiedig o'u cymharu â myfyrwyr rhyngwladol eraill, er mai cysylltiad cyfyngedig

fyddai ganddynt â'r DU. Nid oes chwaith drefniant cyfatebol i gefnogi myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.

Ni fydd personau sy'n colli eu cenedligrwydd UE yn sgil ymadael â'r UE yn gymwys i gael cymorth fel gwladolion yr UE mwyach, gan gynnwys rhai o wladolion y DU.

Efallai na fydd y grwpiau hynny sy'n cael hawliau dinasyddion o dan y Cytundebau Ymadael yn gymwys i gael cymorth, yn groes i'w hawliau.

### *Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

Drwy wneud y Rheoliadau, mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod ymrwymadau o dan y Cytundebau Ymadael a'r trefniant Ardal Deithio Gyffredin yn cael eu cyflawni. Byddai methu diwygio'r rheoliadau yn arwain at anghysondeb â thelerau'r Cytundebau Ymadael. Hefyd, byddai'r gwladolion hynny o'r DU sy'n colli eu cenedligrwydd UE yn sgil ymadael â'r UE yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr.

### **Costau a manteision**

#### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

Dyma'r opsiwn sylfaenol felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae'r canlynol yn grynodedb o'r costau a'r effeithiau economaidd presennol sy'n gysylltiedig â myfyrwyr yr UE sy'n astudio yng Nghymru. Darperir hyn er mwyn gallu cymharu'r costau a'r effeithiau economaidd o dan Opsiwn 2.

Byddai gadael y rheoliadau presennol fel ag y maent yn golygu yr eir i gostau ar gyfer gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir drwy'r system cymorth i fyfyrwyr ar ôl ymadael â'r UE. Byddai'n ofynnol i adnoddau ariannol ar ffurf benthyciadau a grantiau barhau i gefnogi'r rhai sydd â chysylltiad cyfyngedig â'r DU, a hynny er nad oes trefniant cyfatebol ar gyfer myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn bodoli mwyach.

Mae Tabl 1 yn cofnodi nifer y myfyrwyr o'r UE a oedd yn astudio ym mhrifysgolion Cymru yn ystod y blynyddoedd academaidd diwethaf, gan roi syniad o'r galw am leoedd mewn prifysgolion.

**Tabl 1 – Nifer y myfyrwyr o'r UE a oedd yn astudio yng Nghymru**

Blwyddyn academiaidd	Nifer y myfyrwyr o'r UE
2015/16	5,460
2016/17	6,235
2017/18	6,640
2018/19	6,395

Ffynhonnell: HESA.

### Costau

Byddai parhau i gefnogi myfyrwyr sy'n hanu o'r tu allan i'r DU ac sy'n astudio yng Nghymru yn arwain at gost uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys costau darparu benthyciadau a grantiau drwy'r system cymorth i fyfyrwyr ar gyfer astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig. Mae Tabl 2 yn darparu amcangyfrifon o fodolau a ddefnyddir i ragweld cyllidebau sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu'r sefyllfa economaidd ddiweddaraf. Bydd canlyniad y refferendwm a'r cynlluniau ar gyfer ymadael â'r UE eisoes wedi effeithio ar niferoedd y myfyrwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhagolygon. Mae Tabl 2 yn rhoi darlun o'r costau gan dybio y byddai'r tuedd presennol o ran nifer y myfyrwyr yn cael ei gynnal.

**Tabl 2 – Cost cefnogi myfyrwyr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru**

£m	21/22	22/23	23/24	24/25	25/26	26/27	27/28
Grantiau	1.2	0.9	0.9	0.9	0.9	0.9	1.0
Benthyciadau	25.3	25.6	26.3	27.1	27.9	28.7	29.6
<b>Cyfanswm</b>	<b>26.5</b>	<b>26.7</b>	<b>27.2</b>	<b>28.0</b>	<b>28.8</b>	<b>29.6</b>	<b>30.6</b>
Benthyciadau RAB	7.3	7.5	7.6	7.6	7.6	7.6	7.9

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae benthyciadau myfyrwyr yn ad-daladwy. Codir swm ar Lywodraeth Cymru gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gydnabod cost y benthyciadau hynny y rhagwelir y byddant yn cael eu dileu – y tâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau ('RAB')<sup>1</sup>. Mae'r gost hirdymor i Lywodraeth Cymru o ddyroddi benthyciadau yn cael ei chynrychioli gan res olaf tabl 2, sef y gwahaniaeth rhwng y benthyciad a roddwyd a gwerth presennol net cyfrifedig yr ad-daliadau benthyciadau a ragwelir.

<sup>1</sup> Y tâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau yw cost dybiedig benthyciadau i gefnogi'r system cymorth i fyfyrwyr. Mae'n seiliedig ar ddileu benthyciadau yn y dyfodol a chymorthdaliadau llog o ran gwerth presennol net.

Mae amrywiaeth o gostau anuniongyrchol hefyd sy'n anoddach i'w mesur. Mae myfyrwyr o'r UE yn mynd i gostau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus iddynt hwy a'u dibynyddion, gan gynnwys gofal iechyd, tai, addysg gynradd ac uwchradd, plismona, ac yn y blaen. Mae Llywodraeth y DU wedi asesu'r costau ar gyfer yr un newidiadau mewn cymorth i fyfyrwyr yn Lloegr fel a ganlyn:

*Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod dileu statws ffioedd cartref a mynediad at fenthyciadau myfyrwyr yn arwain at arbediad cost o rhwng £3.8bn a £6.6bn gydag amcangyfrif canolog o £5.0bn (gwerth presennol 10 mlynedd, prisiau 2020/21). O'r swm hwn, mae £2.2bn yn deillio o gael gwared ar fynediad at fenthyciadau myfyrwyr, sy'n arbediad cyfartalog o £220m y flwyddyn (gwerth presennol, prisiau 2020/21).<sup>2</sup>*

Felly, mae gwerth presennol (dros ddeng mlynedd) costau darparu gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi rhai nad ydynt yn fyfyrwyr rhwng £1.6bn a £4.4bn, o gymharu â chostau uniongyrchol darparu benthyciadau gwerth £2.2bn. Bydd y costau i Lywodraeth Cymru yn llai nid yn unig oherwydd y nifer llai o fyfyrwyr, ond hefyd gan fod rhai o'r costau mewn meysydd gwariant nad ydynt wedi'u datganoli (ac felly bydd rhai arbedion yn mynd i Lywodraeth y DU). Serch hynny, mae'n ymddangos y byddai'r arbedion o gostau anuniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn sylweddol, a gallant fod yn fwy na'r arbedion yn sgil costau cymorth i fyfyrwyr.

### *Manteision*

Daw y manteision gan fyfyrwyr o'r UE yn sgil (a) talu ffioedd dysgu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (b) gwariant gan fyfyrwyr o'r UE a'u hymwelwyr tra maent yng Nghymru ac (c) manteision cyflogaeth ôl-raddio i'r rhai sy'n aros yng Nghymru. Mae'r effeithiau hyn yn ddarostyngedig i'r lluosyddion economaidd arferol.

Mae London Economics yn amcangyfrif bod yr effaith economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogol gyfartalog yn £68,000 fesul myfyriwr o'r UE (carfan 2015/16, ar draws y cyfnod astudio)<sup>3</sup> o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Gellir cynyddu hyn yn unol â nifer y myfyrwyr o HESA, 6,395, i gyrraedd budd economaidd net o £434.86m ar draws y cyfnod astudio.

---

<sup>2</sup> *Dileu statws ffioedd cartref a mynediad at gyllid myfyrwyr yn Lloegr ar gyfer gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir*, RPC-DfE-5036(1), yr Adran Addysg, 2021.  
[https://www.legislation.gov.uk/ukia/2021/5/pdfs/ukia\\_20210005\\_en.pdf](https://www.legislation.gov.uk/ukia/2021/5/pdfs/ukia_20210005_en.pdf) Gweler t.17.

<sup>3</sup> *Costau a manteision myfyrwyr rhyngwladol yn ôl etholaeth seneddol*, London Economics, 2018.  
<https://londoneconomics.co.uk/blog/publication/costs-benefits-international-students-parliamentary-constituency/>

Daw mantais ôl-raddio i economi Cymru yn sgil cyflogaeth pobl sy'n hangu o'r UE. O'r myfyrwyr sy'n hangu o'r UE sydd yn y DU a raddiodd flwyddyn cyn 2018/19, roedd 58.5% ohonynt mewn cyflogaeth barhaus, astudiaeth bellach neu'r ddau yn y DU yn 2018/19. O'r rhai a raddiodd bum mlynedd yn ôl, roedd y gyfran hon yn 39.3% ac i'r rhai a raddiodd ddeng mlynedd yn ôl roedd yn 25.4%<sup>4</sup>. Mae enillion canolrifol graddedigion o'r UE yn uwch ar gyfer pob carfan (1 flwyddyn, 3 blynedd, 5 mlynedd a 10 mlynedd ar ôl astudio) nag ar gyfer gwladolion y DU. Er enghraifft, dair blynedd ar ôl graddio, roedd enillion canolrifol graddedigion o'r UE yn £27,700 o gymharu â £24,500 ar gyfer graddedigion o'r DU<sup>5</sup>, sy'n awgrymu bod yr unigolion hyn yn fedrus iawn ar y cyfan.

### *Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau*

Bydd costau a manteision opsiwn un yn cael eu lleihau o dan yr opsiwn hwn. Bydd llai o wladolion o'r UE yn cyrraedd Cymru i astudio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac ar ôl i'w rhyddid i symud ddod i ben. Bydd myfyrwyr o'r UE nad ydynt yn dod o dan ddarpariaethau hawliau dinasyddion Cytundeb Ymadael yr UE yn cael eu trin fel myfyrwyr rhyngwladol, felly bydd ffioedd yn debygol o gynyddu i'r myfyrwyr hynny, a byddant yn anghymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, gan gynyddu'r gost astudio ymhellach. Bydd y ddau beth yn arwain at lai o alw am leoedd. Mae referniw i sefydliadau yn debygol o ostwng llai gan y bydd ffioedd uwch yn gwneud iawn am lai o fyfyrwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio elastigedd pris a gyfrifwyd gan London Economics<sup>6</sup> i amcangyfrif y bydd 2,141 o fyfyrwyr o'r UE yn astudio yng Nghymru dros y blynnyddoedd o 2021/22 ymlaen, o gymharu â'r ffigur sylfaenol o 6,395.

### *Costau*

Fel y nodwyd uchod, ni fydd myfyrwyr o'r UE bellach yn gymwys i gael grantiau a benthyciadau drwy'r system cymorth i fyfyrwyr, felly ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn sgil rhoi cymorth i fyfyrwyr iddynt. Felly, mae'r costau a gofnodir yn nhabl 2 yn arbediad i Lywodraeth Cymru yn yr opsiwn hwn.

---

<sup>4</sup> *Canlyniadau graddedigion (LEO) 2018-19*, yr Adran Addysg, Mawrth 2021. <https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/graduate-outcomes-leo/2018-19>

<sup>5</sup> Ibid. Gweler adran 'Graddedigion rhyngwladol - Ffigurau cyffredinol'.

<sup>6</sup> *Amcangyfrif effaith bosibl newidiadau polisi ar y galw gan fyfyrwyr rhyngwladol am addysg uwch yn y DU*, London Economics, Chwefror 2021: <https://londoneconomics.co.uk/blog/publication/estimating-the-potential-impact-of-policy-changes-on-international-student-demand-for-uk-higher-education/>

Ar ôl ymadael â'r UE, bydd gwladolion yr UE yn cael eu trin fel myfyrwyr rhyngwladol ac ni fyddant, ar y cyfan, yn gymwys i gael cymorth gan y sector cyhoeddus, gan leihau'r gost yn sylweddol i Lywodraeth Cymru ac i Lywodraeth y DU.

Bydd rhai costau addasu ar gyfer y sector cyhoeddus. Bydd angen i'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu cymorth i fyfyrwyr (y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn bennaf) a phrifysgolion ddiweddarau systemau, cyngor a chanllawiau. Mae Llywodraeth y DU, wrth asesu'r un newidiadau i gymorth i fyfyrwyr yn Lloegr, yn amcangyfrif y bydd y gost hon rhwng £1m a £7m ar gyfer y sector yn Lloegr, gydag amcangyfrif canolog o £4m yn y flwyddyn gyntaf yn unig<sup>7</sup>. Bydd y costau i'r sector yng Nghymru yn sylweddol is.

### *Manteision*

Bydd y manteision a nodir uchod (talau ffioedd dysgu i sefydliadau addysg uwch Cymru, gwariant gan fyfyrwyr o'r UE tra byddant yng Nghymru, a'r manteision yn sgil cyflogaeth ôl-raddio i'r rhai sy'n aros yng Nghymru) yn parhau i gronni ar ôl 1 Awst 2021, ond ar raddfa lai.

Mae London Economics yn amcangyfrif mai'r effaith economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogol gyfartalog fydd £95,000 fesul myfyriwr o'r tu allan i'r UE (carfan 2015/16, ar draws y cyfnod astudio<sup>8</sup>) o dan yr opsiwn hwn. Mae'r gwahaniaeth yn y gwerth hwn o'i gymharu ag Opsiwn 1 yn deillio'n bennaf o'r ffioedd dysgu uwch a godir ar fyfyrwyr o'r UE o dan yr opsiwn hwn. Gellir cynyddu'r amcangyfrif o'r effaith economaidd yn unol â nifer disgwylidig y myfyrwyr, 2,141 i gyrraedd amcangyfrif budd economaidd net o £203.395m ar draws y cyfnod astudio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd y golled o ran incwm ffioedd i sefydliadau Cymru gan fyfyrwyr o'r UE yn £12.23m dros y tair blynedd o 2021/22 ymlaen, tua 0.9% o incwm y sector. O fewn y ffigur hwn, mae'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan y ffioedd dysgu uwch y byddant yn eu talu (yn unol â myfyrwyr rhyngwladol eraill).

Dylid nodi y rhagwelir y bydd cynnydd yn y rheini a gaiff eu recriwtio i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2021 a bod mwy o fyfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE yn gwneud cais i astudio yn y DU. Er y bydd llawer yn dibynnu ar y penderfyniadau recriwtio a wneir gan sefydliadau addysg uwch unigol yng Nghymru, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y sector yn profi colled net gyfanredol o refferiw.

---

<sup>7</sup> *Dileu statws ffioedd cartref a mynediad at gyllid myfyrwyr yn Lloegr ar gyfer gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir*, RPC-DfE-5036(1), yr Adran Addysg, 2021.

[https://www.legislation.gov.uk/ukia/2021/5/pdfs/ukia\\_20210005\\_en.pdf](https://www.legislation.gov.uk/ukia/2021/5/pdfs/ukia_20210005_en.pdf) Gweler t.15.

<sup>8</sup> *Costau a manteision myfyrwyr rhyngwladol yn ôl etholaeth seneddol*, London Economics, 2018. t.30.

Mae llai o fyfyrwyr sydd wedi graddio yn debygol o aros yng Nghymru i weithio ar ôl i'r rhyddid i symud ddod i ben. Mae'n ymddangos yn sicr y bydd y manteision sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn gostwng. Gall y newidiadau hyn felly leihau'r gronfa o lafur addysgedig a hynod fedrus yng Nghymru.

Bydd y golled net gyffredinol i economi Cymru o newidiadau sy'n ofynnol yn sgil ymadael â'r UE yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y costau a'r manteision a amcangyfrifir uchod a'r golled o ran cyflogaeth. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y disgwylir i'r manteision net (ac eithrio cyflogaeth) ostwng o £434.860m i £203.395m yn ystod y cyfnod astudio. Bydd costau uniongyrchol (cymorth i fyfyrwyr) i Lywodraeth Cymru yn gostwng yn sylweddol. Disgwylir i gostau cyhoeddus eraill leihau'n sylweddol o'r sefyllfa cyn ymadael â'r UE.

### **Asesiad o'r Gystadleuaeth**

Nid yw gwneud y Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

### **Asesu ar ôl gweithredu**

Caiff y rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr eu diwygio'n flynyddol ac maent yn cael eu hadolygu'n fanwl yn barhaus gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflawni wrth iddynt weithredu'r rheoliadau'n ymarferol.

### **Crynodeb**

Mae angen gwneud y Rheoliadau er mwyn diweddarau agweddau ar y system cymorth i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a sicrhau bod ymrwymadau o dan y Cytundebau Ymadael a'r trefniant Ardal Deithio Gyffredin yn cael eu bodloni ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.